# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Chwefror 2025

Amser: 09.30 - 12.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14823

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Andrew RT Davies AS (Cadeirydd)<br>Hannah Blythyn AS<br>Hefin David AS<br>Luke Fletcher AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig<br>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru<br>Mark Alexander, Llywodraeth Cymru<br>Naomi Matthiessen, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Robert Donovan (Clerc)<br>Nicole Haylor-Mott (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd)<br><br>Sara Moran (Ymchwilydd)<br><br>Katy Orford (Ymchwilydd)<br><br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd)<br><br>Lucy Morgan (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod.

1.2 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Samuel Kurtz AS, Andrew RT Davies AS a Huw Irranca-Davies AS fuddiant.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

**2.1 Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant**

**2.2 Dyfodol Dur yng Nghymru**

**2.3 Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach**

**2.4 Adolygiad o'r broses ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod**

**2.5 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm**

**2.6 Y Bwlch Cyflogaeth Anabledd a'r system addysg**

**2.7 Sesiwn Graffu Flynyddol Banc Datblygu Cymru - 20 Tachwedd 2024: Gwaith dilynol**

## 3 Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Sesiwn graffu ar waith y Gweinidog

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 5 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 3.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog gyda nifer o gwestiynau dilynol, gan ofyn am ragor o wybodaeth am rai meysydd diddordeb penodol a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 6 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Hawliau Cyflogaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor nodyn cyngor cyfreithiol Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chytunodd ar ei farn cyn drafftio ei adroddiad ar y materion polisi.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, fel y Pwyllgor sy'n arwain ar faterion cyfansoddiadol, gan fynegi ei bryderon ynghylch rhai pwerau cyfreithiol penodol a roddwyd i Lywodraeth y DU a gynhwysir yn y Bil.

## 7 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Data (Defnydd a Mynediad)

7.1 Trafododd y Pwyllgor nodyn cyngor a briff cyfreithiol y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chytunodd ar ei ddull o ymdrin â'i adroddiad.

## 8 Ymchwiliad Hybu Cig Cymru: Trafod y papur Cwmpas a Dull

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gwmpas a dull ei ymchwiliad newydd i Hybu Cig Cymru, a chytunodd i symud ymlaen gyda sesiynau tystiolaeth lafar yn yr hanner tymor nesaf.

## 9 Yr Economi Sylfaenol: Trafod y materion allweddol

9.1 Trafododd y Pwyllgor y papur briffio materion allweddol a chytunodd ar y sail i ddechrau drafftio ei adroddiad.

## 10 Yr Economi Werdd: Trafod yr adroddiad drafft

10.1 Dechreuodd y Pwyllgor drafod ei adroddiad drafft, a chytunodd i ailedrych ar yr eitem hon yn ei gyfarfod nesaf, yn dilyn newidiadau i'r argymhellion yn yr adroddiad.